OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2552 (Cy.222)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*29 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*27 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 27 Hydref 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 (**2**); ac ystyr

"Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**3**).

Diwygiadau i Reoliadau 1986

2.—(1) Diwygir Rheoliadau 1986 yn unol â'r paragraffau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1986/975; yr offerynnau diwygio perthnasol yw 1989/395, 1992/404, 1995/558, 1996/2320, 1999/693 a 2841 (Cy.21), 2001/1362 (Cy.90) a 1423 (Cy.98) a 3323 (Cy.276) a 2003/301 (Cy.43) a 955 (Cy.129).
(**3**) O.S. 1997/818; yr offerynnau diwygio perthnasol yw 1999/609, 2000/978 (Cy.48), 2001/1362 (Cy.90) a 1423 (Cy.98), 2003/301 (Cy.43) a 955 (Cy.129).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor—

""income-related employment and support allowance" means an employment and support allowance, entitlement to which is based on section 1(2)(b) of the Welfare Reform Act 2007 (income-related employment and support allowance)(**4**)."

(3) Yn rheoliad 13(2) (cymhwystra ar gyfer profion llygad))—

(a) hepgorer "or" ar ddiwedd is-baragraff (i); a

(b) ar ôl is-baragraff (n), mewnosoder yr is-baragraffau a ganlyn—

"(o) he is in receipt of income-related employment and support allowance; or

(p) he is a member of the same family as a person in receipt of income-related employment and support allowance.".

(4) Yn rheoliad 13(3)—

(a) hepgorer "and" ar ddiwedd is-baragraff (b); a

(b) ar ôl is-baragraff (c), mewnosoder y canlynol—

"and

(d) in sub-paragraph (p) "family" has the meaning given to it by regulation 2 of the Employment and Support Allowance Regulations 2008(**5**).".

Diwygiadau i Reoliadau 1997

3.—(1) Diwygir Rheoliadau 1997 yn unol â'r paragraffau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (Enwi, cychwyn a dehongli) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor—

""income-related employment and support allowance" means an employment and support allowance, entitlement to which is based on section 1(2)(b) of the Welfare Reform Act 2007 (income-related employment and support allowance)(**6**).".

(3) Yn rheoliad 8(3) (cymhwyster — cyflenwi teclynnau optegol)—

(a) hepgorer "or" ar ddiwedd is-baragraff (l); a

(b) ar ôl is-baragraff (n), mewnosoder y canlynol—

"(o) he is in receipt of income-related employment and support allowance; or

(p) he is a member of the same family as a person in receipt of income-related employment and support allowance.".

(4) Yn rheoliad 8(4)—

(a) hepgorer "and" ar ddiwedd is-baragraff (b); a

(b) ar ôl is-baragraff (c), mewnosoder y canlynol—

"and

(d) in sub-paragraph (p) "family" has the meaning given to it in regulation 2 of the Employment and Support Allowance Regulations 2008(**7**).".

(**4**) 2007 p.5.
(**5**) O.S. 2008/794.
(**6**) 2007 p.5.
(**7**) O.S. 2008/794.